# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(67)v5

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (10 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (5 munud)**
Gweld y cwestiynau

**4. Cynnig i ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes (1 munud)**

**NDM4994 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

**5. Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (60 munud)**

**6. Dadl ar Araith y Frenhines (130 munud)**

**NDM4992 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2012/2013.

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (ar gael yn Saesneg yn unig):
http://number10.cabinetoffice.gov.uk/engage/queens-speech-2012/

**Dogfennau Ategol:**
[Papur Gwasanaeth Ymchwil - Araith y Frenhines 2012]
[Gwybodaeth am y Mesurau Seneddol yn Araith y Frenhines a ddarparwyd gan Swyddfa Cymru, Mai 2012]
[Llythyr gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y ffaith nad yw'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys unrhyw fesurau ystyrlon i gyflawni twf yn yr economi.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Ynni a fydd yn diwygio'r farchnad drydan er mwyn annog buddsoddiad mewn cynhyrchu carbon-isel ac ynni glân.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Rhoddion Bach a fydd yn galluogi elusennau bach i hawlio 25c yn ôl am bob £1 a roddir, hyd at £5,000.

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Diwygio'r Banciau a fydd yn gwahanu gweithgareddau manwerthu'r banciau oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a'i hymrwymiad parhaus i:

a) lleihau'r diffyg a thrwy hynny sicrhau'r cyfraddau llog isaf erioed yn y Deyrnas Unedig, sydd o fudd i berchnogion tai ledled Cymru;

b) adfer sefydlogrwydd economaidd, gan greu cyfoeth i gynnal gwasanaethau cyhoeddus.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd a chreu swydd Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4993 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Plant sy’n Ceisio Lloches a sut y cânt eu hamddiffyn yng Nghymru

Mae Llywodraeth y DU yn llesteirio gallu Llywodraeth Cymru o ran plant sy’n ceisio lloches yng Nghymru. Mae diogelu plant yn fater sydd wedi’i ddatganoli, ond mae’r graddau y mae Llywodraeth y DU wedi dehongli ei chymhwysedd a gadwyd ar fewnfudo, sef trin unrhyw fater sy’n ymwneud â cheiswyr lloches, plant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid fel mater a gadwyd yn ôl, yn cynnwys y meysydd hynny sy’n gymwyseddau a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mynd yn groes, mewn sawl achos, i amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer dinasyddion Cymru: o ran hawliau plant, cydraddoldeb a gweithio tuag at gymdeithas deg a chynhwysol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 29 Mai 2012